# RHODIO'R RHYL



**Llun:** Cyngor Sir Ddinbych

***Ariennir***
***Rhodio'r Rhyl gan:***

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

***A daw i chi gan:***

CYNGOR TREF Y RHYL TOWN COUNCIL

**Annwyl gyfeillion**

Blwyddyn newydd dda. Gobeithio i chi gael gwyl braf a chychwyn tawel i'r flwyddyn newydd. Mae'n anodd credu bod blwyddyn arall wedi mynd heibio mor gyflym, a ninnau'n dal mewn cyfnod o ansicrwydd Covid.

Gobeithio, rydym yn dechrau gweld ychydig o oleuni bellach, ac y gallwn ailgydio mewn rhyw fath o fywyd normal eto eleni.

Tan hynny, rydym yn gwybod bod y dyddiau byr yn gallu bod yn anodd ac, er bod y gwanwyn rownd y gornel, gall fod yn anodd canfod ffocws.

Gobeithiwn y gall ***Rhodio'r Rhyl*** helpu gyda pheth o hynna. Yma, bydd pethau i'ch cadw'n ddifyr yn yr wythnosau nesaf, gwaith celf i'w liwio, cwis i roi cynnig arno, a rysait i'w goginio. Mae sblash o liw i bopeth i ysgafnhau'r llwyd. Gall y gaeaf fod yn amser anodd yn ariannol, yn enwedig ar ôl y Nadolig, ac rydym yn gwybod bod pobl yn poeni am gostau tanwydd yn cynyddu.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar y dudalen gefn ynglŷn â'r hyn y gallwch ei wneud a'r help sydd ar gael drwy gynllun tanwydd ar y cyd y Cyngor Tref a Chyngor ar Bopeth. Mae'n bartneriaeth werthfawr a all wneud gwahaniaeth go iawn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fwy nag erioed rwy'n meddwl, rydym wedi gwerthfawrogi'r partneriaethau, neu yn hytrach, y cyfeillgarwch sy'n bwysig i ni, yn enwedig ar ôl cael ein gwahanu gan y pandemig.

Gyda blwyddyn newydd yn amser i edrych ymlaen, efallai y gwnawn bartneriaethau newydd a meithrin perthynas newydd yn ystod 2022. Efallai y byddwn yn edrych ar rai o'n partneriaethau mewn rhifyn yn y dyfodol.

Am nawr, gobeithiwn y bydd ***Rhodio'r Rhyl*** yn gydymaith da ac yn eich diddanu am ychydig. Gobeithiwn eich gweld o gwmpas yn fuan, ond yn y cyfamser, dymuniadau gorau gan bob un ohonom yng Nghyngor Tref y Rhyl.

*Maer y Rhyl, y Cyngh Diane King*

## Cynnwys

**Tudalen 3** *Sausage Sizzler* – bywiogi pryd bwyd i'r teulu

**Tudalen 4** Mynd ar daith chwilio geiriau

**Tudalen 5** Gloyn byw i'w liwio

**Tudalen 6 ac 8** Bydd lliwiau'r gwanwyn ymhobman yn fuan. Ewch ati i liwio!



**Llun:** Cyngor Sir Ddinbych

Rydym ar Facebook
@RhylTownCouncil

Rydym ar Twitter
@RhylTownCouncil

**Yn gwrando arno y mis yma:**
**Desert Island Discs BBC Radio 4! Rydym yn mwynhau'r dianc hyd yn oed os na allwn deithio'n bell ein hunain! Chwiliwch am bodlediadau i gael cwmni ychwanegol ar bynciau gwahanol. Llawer i'w gael arlein!**

**Oeddech chi'n gwybod? Mae Cyngor Tref y Rhyl yn rhedeg llawer o ddigwyddiadau cymunedol a chystadleuthau am ddim. O'n cystadleuaeth ffenestri Nadolig i siopau (mae'r buddugol ar gyfer 2021 ar Facebook) trwodd i wyliau'r haf, rydym yn cynnal gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn i drigolion ac ymwelwyr. Edrychwch ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol i weld y diweddaraf.**

# SAUSAGE SIZZLER

Rydym wrth ein boddau gyda'r caserôl selsig yma. Mae'n eich llenwi, eich cynhesu ac yn hawdd i'w wneud!

**Cynhwysion**

- 1 llwy fwrdd olew olewydd
- 1 nionyn wedi ei dorri'n fân
- 1 clof garlleg wedi ei falu
- 1 darn mawr o seleri wedi ei dorri'n fân
- 2 bupur wedi eu torri
- Un pecyn o 6 selsig porc
- 1 llwyd de paprika melys wedi ei fygu
- ½ llwy de cwmin
- ½ llwy de dafnau chilli
- 2 x 400g tun tomatos wedi eu torri
- 400g tun ffa cannelloni, wedi eu draenio
- 250g bag sbinoglys
- 2 llwy fwrdd o friwsion ffres (neu rai wedi eu rhewi gyda pherlysiau)

**Dull**

- Rhowch yr olew mewn dysgl gaserôl fawr dros wres canolig. Ychwanegwch y nionyn, gan goginio am 5 munud nes mae'n feddal. Ychwanegwch y garlleg a'r seleri a'r pupur. Coginiwch am 5 munud arall.
- Trowch y gwres i fyny ac ychwanegu'r selsig. Coginiwch am ychydig funudau ac ychwanegu'r sbeis a'r pupur a halen. Ychwanegwch y tomatos a gadewch i fudferwi efo'r caead ymlaen am 40 munud, gan ei droi o bryd i'w gilydd.
- Twymwch y gril yn uchel a thynnu caead y ddysgl. Ychwanegwch y ffa a'r sbinoglys a chymysgu. Taenwch y briwsion ar y top a grilio am 2-3 munud nes bydd wedi crasu. Ychwanegwch dafell o fara a mwynhewch!

## Awgrym

**Peidiwch ag anghofio'r briwson i'w wneud yn grensiog!**

**Gallwch ddefnyddio rhai wedi rhewi neu wneud rai eich hun.**



# Chwilio Geiriau




## Ffansi trip? Ewch ar daith o gwmpas y byd





| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | A | G | W | I | T | R | O | P | A | M | T | I | N |
| D | F | D | D | E | O | R | I | D | L | E | S | I | O |
| L | L | G | E | O | R | G | O | M | B | E | S | C | D |
| U | Y | U | A | I | R | T | S | W | A | O | A | Y | N |
| X | L | F | F | I | Y | N | R | R | N | N | N | M | F |
| E | B | F | F | R | R | S | L | S | O | I | B | R | D |
| M | Y | N | R | I | M | B | N | M | A | C | R | U | A |
| B | L | O | A | D | O | A | F | D | A | W | I | L | N |
| O | L | D | I | N | E | E | E | I | R | E | T | D | E |
| U | O | D | N | I | N | N | F | O | C | E | S | L | D |
| R | E | R | C | F | Y | O | M | E | D | F | I | A | E |
| G | G | E | F | F | O | A | R | A | W | G | W | D | W |
| D | R | W | E | S | R | F | E | W | R | G | S | I | S |
| W | R | I | R | T | E | G | G | X | Y | C | T | E | U |

**Luxembourg**
**Eidal**
**Iseldiroedd**
**Ffindir**
**Iwerddon**
**Denmarc**
**Norwy**
**Swistir**
**Monaco**
**Gwlad yr Iâ**
**Alban**
**Awstria**
**Portiwgal**
**Sweden**
**Eire**
**Lloegr**
**Sbaen**
**Groeg**
**Ffrainc**
**Cymru**

**Ateb**



# PILI PALAS

Pam na ychwanegwch sblash o liw a dylunio eich pili pala eich hun? Allwch chi feddwl am gerdd fer i'w disgrifio? Rhowch gynnig arni isod. Gallwch wastad ei hanfon atom yn enquiries@rhyltowncouncil.org.uk. Buasem yn hoffi eu darllen!

# GAFAELWCH YN EICH PENSILIAU AC YMLACIO



# Chwilio Geiriau




## Mwynhau’r gwanwyn gyda ffrindiau


| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | A | E | M | T | B | S | A | C | I | D | I | A | I |
| W | B | F | D | I | A | N | C | P | O | T | I | A | U |
| C | Y | F | E | I | L | L | G | A | R | W | C | H | B |
| R | C | C | D | B | Y | L | B | I | A | U | E | O | L |
| A | G | A | O | D | A | W | I | H | M | B | I | F | O |
| I | A | N | T | E | I | T | H | I | O | R | R | L | D |
| N | W | T | N | G | D | E | F | N | A | D | I | S | A |
| T | C | U | M | I | I | S | Y | L | H | I | O | E | U |
| C | F | R | C | E | C | W | A | N | W | A | S | N | A |
| O | S | W | Y | S | N | P | D | O | I | C | E | N | L |
| C | C | T | P | A | I | L | C | U | S | N | Y | Y | S |
| H | A | L | W | L | U | L | D | W | Y | W | M | C | C |
| E | U | G | I | H | E | D | F | A | N | E | P | W | I |
| O | B | P | E | C | A | T | T | O | E | H | G | C | C |

**Blodau**
**Antur**
**Cwch**
**Ceirios**
**Cyfeillgarwch**
**Teithio**
**Bylbiau**
**Dianc**
**Cwmni**
**Gwanwyn**
**Pili Pala**
**Potiau**
**Cynnes**
**Coed**
**Hedfan**

Ateb



# MAE'R GWANWYN AR Y FFORDD



## LLIWIWCH Y BLODAU AR Y GOEDEN

# Colli rhywun? Eisiau dweud helo? Anfonwch gerdyn post.

Colli ffrind?
Eisiau gadael i anwyliad wybod eich bod yn meddwl amdanyn nhw?
Pam na wnewch eich cerdyn post eich hun a'i anfon atyn nhw.
Torrwch y llun isod allan a'i lynu ar ddarn o bapur A4 cryf wedi ei blygu yn ei hanner. Ychwanegwch eich dyluniad eich hun ar yr ymylon, ysgrifennwch eich neges, ei roi mewn amlen a dyna ni!

Eich cerdyn arbennig chi o'r Rhyl yn yr Haul yn barod i fynd.
Postiwch o un o'r blychau post gyda'r gorchuddion lliwgar i roi gwên ychwanegol!
Diolch i Gyngor Sir Ddinbych am y ffotograff.
Postiwch y cerdyn yn un o'r blychau gyda thop wedi'i grosio i ychwanegu gwen.



# HELP A CHYNGOR

Llywodraeth Cymru (rheoliadau ledled Cymru): 0300 0604400
www.gov.wales/coronavirus

**Iechyd Cyheoddus Cymru (darlun diweddaraf):**
www.phw.nhs.wales

Cyngor Tref y Rhyl: 01745 331114
I siarad gyda'ch cynghorwyr lleol, ewch i:
www.towncouncil.org.uk

**Cyngor Sir Ddinbych:** 01824 706000
www.denbighshire.gov.uk/en/coronavirus/coronavirus.aspx

Samariaid: 116 123
https://www.samaritans.org/wales/samaritans-cymru/

Age UK: 0800 678 1602
https://www.ageuk.org.uk



cyngor ar bopeth | citizens advice | Sir Ddinbych Denbighshire

Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi bod yn helpu i sicrhau arbedion ariannol go iawn a gwneud gwahaniaeth positif i'r aelwydydd mwyaf agored i niwed yn ein cymuned gyda'n partneriaeth lwyddiannus gyda Chyngor Tfref y Rhyl.

Gyda chymorth Cyngor Tref y Rhyl rydym wedi gallu ariannu cynghorwr i helpu pobl gyda'u hanghenion ynni.

Gyda'n gilydd, rydym wedi gallu helpu pobl i gael hyd i'r fargen orau, lleihau costau ynni o ben i ben, gwneud cais am fesurau arbed ynni, rheoli dyledion ynni, help i wneud y mwyaf o incwm gyda chyngor ar fudd-daliadau lles, ymateb i anghenion tanwydd brys gyda thalebau mesurydd rhagdalu gwerth £49 yr un, a hyd yn oed rhoi offer arbed ynni megis cwcer araf.

Rydym hefyd wedi bod yn annog teuluoedd i gysylltu gyda chynllun Nyth Llywodraeth Cymru sy'n gallu cynnig gwelliannau arbed ynni am ddim megis boeler newydd, gwres canolog neu waith inswleiddio.



Er bod y budd i iechyd a lles pobl pan fyddant yn gallu cynhesu eu cartref a phoeni llai am y gost ariannol yn anfesuradwy, hyd yma yn y flwyddyn ariannol yma rydym wedi gallu canfod a gwneud cais llwyddiannus am £209k mewn budd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio i gleientiaid yn y Rhyl, ac wedi trafod dyledion gwerth mwy na £101k ar ran ein cleientiaid. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau trigolion y Rhyl.

Os hoffai trigolion y Rhyl gael cyngor a help ar ddelio gyda thlodi tanwydd a materion ynni, gallant alw Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i gael cyngor di-duedd, cyfrinachol am ddim ar 08082 787 933, neu ebostio advice@dcab.co.uk a bydd un o'n cynghorwyr yn cysylltu gyda chi.